OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 371 (Cy.35)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*22 Chwefror 2005*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), gan arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 303A(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ("y Ddeddf") ac sydd bellach yn arferadwy, mewn perthynas â Chymru, gan y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Y personau a'r ymchwiliadau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw berson a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol i gynnal, neu i fod yn un o'r personau a benodir felly sydd i gynnal, ymchwiliad cymwys, o fewn yr ystyr sydd i'r term "qualifying inquiry" yn adran 303A(1) o'r Ddeddf, sydd i ddechrau ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(**1**) 1990 p.8. Mewnosodwyd adran 303A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan adran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) 1995 (p.49). *Gweler* adran 336(1) o Ddeddf 1990 i gael y diffiniad o "*prescribed*".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau perthnasol i'r Cynulliad Cenedlaethol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac y maent bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) (Cy.5), erthygl 4; *gweler* y cofnod am Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p.8) yn Atodlen 3 i Orchymyn 2000.